



Hysbysiad Preifatrwydd Y Ganolfan Eifftaidd

Mae'r dudalen hon yn rhoi manylion am hysbysiad preifatrwydd y Ganolfan Eifftaidd mewn perthynas â gwybodaeth a gesglir amdanoch.

Pwy ydym ni

Y Ganolfan Eifftaidd, Amgueddfa Hynafiaethau'r Aifft, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, Cymru, SA2 8PP

Rydym yn rhan o Brifysgol Abertawe, sy'n elusen gofrestredig; y rhif cofrestru yw Rhif: 1138342

Mae Prifysgol Abertawe'n gyfrifol am gasglu a phrosesu data personol a data categori arbennig, ac i'r perwyl hwn, Prifysgol Abertawe yw'r rheolydd data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau cyfranogwyr yn unol â Deddf Diogelu Data'r Deyrnas Unedig 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data y gellir anfon e-bost ato yn dataprotection@abertawe.ac.uk

Mae Polisi Diogelu Data'r Brifysgol ar gael yma
<http://www.swansea.ac.uk/theuniversity/world-class/vicechancellorsoffice/compliance/dataprotection/dataprotectionpolicy/>

Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Rydym yn casglu'r data personol y gallech ei gyflwyno'n wirfoddol ac rydych wedi rhoi eich cydsyniad amdano wrth gadw lle mewn digwyddiadau, cynadleddau a gweithdai, ar ffurflenni aelodaeth neu roddi, wrth wirfoddoli yn y Ganolfan Eifftaidd, wrth gofrestru am e-gylchlythyron neu e-farchnata ac arolygon i ymwelwyr.

Gall gwybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu gynnwys:

- eich enw, eich teitl
- eich rhywedd, eich ethnigrwydd (gwirfoddolwyr yn unig ar gyfer monitro Cyfle Cyfartal)
- dyddiad geni
- cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn
- manylion cyswllt mewn argyfwng (gwirfoddolwyr a phlant sy'n mynychu gweithdai yn unig)
- anabledau neu gyflyrau meddygol (gwirfoddolwyr a phlant sy'n mynychu gweithdai yn unig)
- ar gyfer rhoddion, rydym yn gofyn am wybodaeth am y berthynas rhyngoch chi a'r rhodd

Pan fyddwn yn gofyn i chi roi eich gwybodaeth bersonol, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi pam rydym yn

gofyn, a sut byddwn yn defnyddio'ch data, drwy eich cyfeirio at yr hysbysiad hwn.

Pam rydym yn casglu'r data hn?

Mae rhai categorïau o'r data rydym yn eu casglu'n orfodol ac yn angenrheidiol ar gyfer eich iechyd a'ch diogelwch megis cyswllt mewn argyfwng, manylion eich meddyg teulu, anableddau, alergeddau a hanes meddygol. Lle mae gennym ddyletswydd i sicrhau iechyd a diogelwch ein hymwelwyr â'r Ganolfan, byddwn ni'n casglu'r wybodaeth hon oherwydd bod rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny (Erthygl 6(1)(c)). Bydd data categorï arbennig megis gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch hanes meddygol, eich anableddau a'ch alergeddau yn angenrheidiol am resymau budd cyhoeddus sylweddol (Erthygl 9(2)(g)).

Hefyd, cesglir rhai mathau o ddata er mwyn rheoli iechyd a diogelwch ein hymwelwyr er buddiannau dilys y Brifysgol a'r gymuned ehangach ac er budd sylweddol y cyhoedd, e.e. pandemig Covid 19 (6(1)(f), 9(2)(g))

Mae rhai mathau o ddata'n orfodol gan eu bod yn hanfodol ar gyfer rheoli'r amgueddfa a'i gweithgareddau'n hwylus megis manylion cyswllt gwirfoddolwyr, rhoddwyr neu aelodaeth Cyfeillion, gwybodaeth am ysgolion ac am gadw lleoedd mewn gweithdai. Mae casglu'r wybodaeth hon yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau dilys a ddilynir gan y Brifysgol (Erthygl 6(1)(f))

Rydym yn casglu rhai mathau o ddata er mwyn monitro Cyfle Cyfartal, er mwyn sicrhau ein bod yn cysylltu â phawb. Gallai'r data hyn gynnwys rhywedd, ethnigrwydd ac oedran. Nid yw'r data categorï arbennig hyn yn orfodol ac mae angen cydsyniad penodol ar eu cyfer (Erthygl 9(2)(a))

Hefyd, bydd angen casglu rhai mathau o ddata at ddibenion cefnogi gwaith Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru yn ystod pandemig COVID-19. Cliciwch ar yr hysbysiad canlynol am ragor o wybodaeth am sut y prosesir eich data at y dibenion hyn - <https://www.swansea.ac.uk/aboutus/compliance/data-protection/covid-19-track-and-trace-privacy-notice/>

Sut rydym yn gofyn am gydsyniad?

Rydym yn gofyn am eich cydsyniad i brosesu'ch data personol (neu ddata plant sydd o dan eich gofal) ac yn gofyn am gydsyniad ar wahân ar gyfer pob gweithgaredd prosesu.

Y datganiad cydsyniad a ddefnyddir:

1. Drwy gwblhau'r ffurflen hon, rwyf yn caniatáu i'r Ganolfan Eifftaidd gadw fy nata neu ddata plentyn sydd o dan fy ngofal, yn y Ganolfan Eifftaidd ac yn cytuno y caiff y Ganolfan Eifftaidd brosesu data personol sy'n ymwneud â minnau at ddibenion cyfreithiol, rheoli, personél, gweinyddu a diogelu.

Gallwch ddewis peidio â derbyn cyfathrebiadau gennym ar unrhyw adeg drwy e-bostio egyptcentre@abertawe.ac.uk

Llofnod Dyddiad.....

(ar gyfer rhoddwyr, gwirfoddolwyr, aelodaeth a chyfranogwyr mewn gweithdai i ysgolion)

2. Rwyf yn rhoi fy nghaniatâd i fy manylion cyswllt gael eu defnyddio at ddibenion marchnata yn unig, er mwyn i mi wybod am ddigwyddiadau'r Ganolfan Eifftaidd yn y dyfodol. Gallwch ddewis peidio â derbyn cyfathrebiadau gennym ar unrhyw adeg drwy e-bostio egyptcentre@abertawe.ac.uk

Llofnod Dyddiad.....

(ar gyfer cyfranogwyr mewn gweithdai)

Yr Hawl i Dynnu Cydsyniad yn Ôl

Lle rydym yn dibynnu ar gydsyniad neu gydsyniad penodol i brosesu'ch gwybodaeth, mae gennych hawl i dynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg. Gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl drwy e-bostio egyptcentre@abertawe.ac.uk

Beth rydym yn ei wneud â'ch gwybodaeth

Gan ddibynnu ar eich perthynas â'r Ganolfan Eifftaidd, a'r dewisiadau rydych wedi'u nodi, gallwn ddefnyddio data rydym yn eu cadw at y dibenion canlynol:

- Anfon gwybodaeth hysbysebu, farchnata neu wybodaeth am godi arian atoch drwy'r post, dros y ffôn neu drwy ddulliau electronig. Gall y mathau hyn o gyfathrebu gynnwys:
- Rhoi gwybod i chi am gynnyrch, gwasanaethau neu ddiwyddiadau eraill sy'n ymwneud â'r Ganolfan Eifftaidd, megis arddangosfeydd neu ddiwyddiadau.
- Anfon arolygon atoch, ac at ddibenion ymchwil marchnata.
- Caiff gwybodaeth am wirfoddolwyr o'r ffurflen Gais Gwirfoddolwyr ei llwytho ar gronfa ddata Gwirfoddolwyr, a'i defnyddio'n feunyddiol gan y rheolwr gwirfoddolwyr er mwyn diweddarau eich cynnydd, gan gynnwys rôl a hyfforddiant rydych wedi'i gwblhau.
- Mae manylion plant yn dod o ffurflen gydsynio eu rhieni, ac fe'u cofnodir ar gofrestr gweithdy.
- Mae manylion aelodaeth yn dod o'r ffurflen aelodaeth, ac fe'u cofnodir ar gronfa ddata Aelodaeth
- Mae manylion rhoddwyr yn dod o'r Ffurflen Gais, ac fe'u cofnodir ar gronfa ddata
- E-byst sy'n cadarnhau archebu a negeseuon atgoffa am ddiwyddiadau
- Rhestrau Postio - Pan fyddwch yn cofrestru am ein rhestr bostio ac yn cydsynio amdani, naill ai ar adeg cadw lle mewn digwyddiad neu ar wahân drwy ein ffurflen gofrestru. Er mwyn rhannu gwybodaeth megis digwyddiadau sydd ar ddod.

Gallwch ddewis peidio â derbyn cyfathrebiadau gennym ar unrhyw adeg drwy e-bostio egyptcentre@abertawe.ac.uk

Gallwch ddewis peidio â derbyn ein cyfathrebiadau marchnata ar unrhyw adeg drwy e-bostio egyptcentre@abertawe.ac.uk

Fodd bynnag, mae'n ofynnol inni gadw rhai cyfathrebiadau Aelodaeth a Rhoddi beth bynnag yw eich dewisiadau o ran cysylltu â chi. Mae'r rhain yn gyfathrebiadau hanfodol, y tybir eu bod yn angenrheidiol i fodloni ein rhwymedigaethau cytundebol i chi a'n rhwymedigaethau cyfreithiol o ran rhoddion. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am roddwyr, buddion i aelodau megis y cylchgrawn Inscriptions a chardiau aelodaeth, a negeseuon atgoffa am adnewyddu.

Sut rydym yn diweddarau eich gwybodaeth er mwyn ei chadw'n gywir

Rydym yn adolygu cofnodion cefnogwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod eich data mor gywir â phosibl. Rydym yn dibynnu ar gefnogwyr i roi gwybod i ni os oes angen diweddarau eu manylion cyswllt ac nid ydym yn cysylltu â ffynonellau eraill er mwyn cynnal y gwiriadau hyn. Os hoffech chi ddiweddarau neu gywiro gwybodaeth amdanoch y mae'r Ganolfan Eifftaidd yn ei chadw, e-bostiwch egyptcentre@abertawe.ac.uk

Pwy gallem rannu eich gwybodaeth â nhw?

Nid ydym yn datgelu data personol i drydydd parti neu sefydliadau allanol. Yr eithriadau yw:

- Data personol ar gyfer ein catalog gwrthrychau a'n catalog gwrthrychau ar-lein, sy'n nodi enw a chyfeiriad y Rhoddwr (oni bai eich bod yn nodi dymuniad i fod yn ddiennw).
- Ceisiadau diogelu neu geisiadau cyfreithiol yn unol â'r gyfraith bresennol
- Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu GIG Cymru, pan fo angen cefnogi'r broses olrhain Cysylltiadau Ni chaiff eich data byth eu gwerthu na'u trosglwyddo i drydydd parti at ddiben arall.

Am faint o amser rydym yn cadw'ch gwybodaeth?

Nid ydym yn cadw eich data personol yn hwy na'r angen:

- Caiff data personol eu dileu/distrywio ymhen mis ar ôl digwyddiad/gweithdy.
- Gellir dileu data personol gwirfoddolwyr pan na fyddant yn gwirfoddoli mwyach, neu gellir eu cadw am gyhyd ag y gofynnir amdano e.e. at ddiben ymateb i geisiadau am eiradaon gan gyflogwyr
- Cedwir data personol sy'n ymwneud â rhoddion/benthyciadau i'r casgliad am hyd y rhodd/benthyciad.
- Cedwir cyfeiriadau e-bost ar restr bostio am gyhyd ag y bydd y cefnogwr yn gofyn amdano.

Sut rydym yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau diogelwch, rheolau a mesurau technegol ar waith er mwyn diogelu'r data personol sydd gennym o dan ein rheolaeth ni rhag:

- mynediad anawdurdodedig;
- defnydd neu ddatgelu amhriodol
- diwygio heb awdurdod

Bydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar ein holl gyflogeion, sydd â mynediad at ddata personol ac sy'n ymwneud â phrosesu data personol, i barchu cyfrinachedd data personol ein hymwelwyr a'n cefnogwyr.

Hawliau unigol

Mae deddfwriaeth diogelu data'n darparu nifer o hawliau gwahanol i unigolion mewn perthynas â'u data Rhestrir y rhain isod ac maent yn berthnasol i amgylchiadau penodol:

- **Cais am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol (sy'n cael ei adnabod yn gyffredin fel 'cais am fynediad gan wrthrych data'). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r

wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.

- **Cais i gywiro'r** wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi.
- **Cais i ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ddileu neu gael gwared â gwybodaeth bersonol os nad oes rheswm da inni barhau i'w phrosesu. Hefyd, mae gennych hawl i ofyn inni ddileu neu gael gwared â'ch gwybodaeth bersonol os ydych chi wedi arfer eich hawl i wrthwynebu'r prosesu (gweler isod).
- Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn ni'n dibynnu ar fudd dilys (neu fuddiannau trydydd parti) a bydd rhywbeth o ran eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi ddymuno gwrthwynebu'r prosesu ar sail hyn. Hefyd, mae gennych hawl i wrthwynebu pan fyddwn ni'n prosesu'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata.
- **Cais i gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn inni ohirio prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft os ydych chi am inni gadarnhau ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Cais i drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol ar ffurf gludadwy. Mewn rhai amgylchiadau, efallai bydd hawl gennych i ofyn inni roi copi electronig ichi o'ch gwybodaeth bersonol, naill ai at eich defnydd chi neu er mwyn ichi allu ei rhannu â sefydliad arall. Pan fydd yr hawl hon yn berthnasol, gallwch ofyn inni, pan fo'n ymarferol, drosglwyddo eich data personol yn uniongyrchol i'r parti arall.

Os ydych chi am adolygu, gwirio, cywiro eich gwybodaeth bersonol neu ofyn i ni ei dileu, gwrthwynebu prosesu'ch data personol, neu ofyn inni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â:

Mrs Bev Buckley

Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth a Swyddog Diogelu Data

Swyddfa'r Is-ganghellor

Prifysgol Abertawe

Parc Singleton

Abertawe

SA2 8PP

E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

Sut i gwyno

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd rydym wedi prosesu'ch gwybodaeth bersonol, gallwch yn y lle cyntaf gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn anfodlon o hyd wedi hynny, mae gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael penderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,

Wycliffe House,

Water Lane,

Wilmslow,

Swydd Gaer,

SK9 5AF

www.ico.org.uk